

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol/Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil y Lluoedd Arfog

Hydref 2021

## 1. Cefndir

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gwreiddiol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (y Memorandwm Atodol) ar gyfer Bil y Lluoedd Arfog. Gosodwyd y Memorandwm ar 28 Mai 2021 a gosodwyd y Memorandwm Atodol ar 30 Mehefin 2021.

**2.** Ym mis Gorffennaf 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er mwyn iddynt eu trafod.

**3.** Y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yw 14 Hydref a 21 Hydref 2021 yn y drefn honno. Gwnaethom ystyried ein hadroddiad ar 4 Hydref 2021.



---

## 2. Y Memoranda

4. Mae paragraffau 3 i 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 i 10 yn crynhoi'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 11 i 15 yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau sy'n cael eu gwneud mewn Bil yn y DU, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.
5. Gwnaed dau welliant arall i'r Bil a gwnaeth y rhain ddarpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm atodol wedi'i ddiweddarau ar 30 Mehefin 2021.
6. Mae paragraffau 3-5 o'r Memorandwm Atodol yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 i 13 yn rhoi diweddariad ar y newidiadau a wnaed i'r Bil yn ystod y camau diwygio. Mae paragraffau 14 i 19 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y newidiadau a wnaed i'r Bil.
7. Mae'r ddau Femorandwm yn nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r Bil (gweler paragraffau 16 ac 20 ar gyfer y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yn y drefn honno).

## 3. Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

8. Gofynnir am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 8 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae cymal 8 yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â Chyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddiwygio Rhan 16A o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 ("Deddf 2006").
9. Mae Cymal 8 yn mewnosod adrannau newydd 343AA i 343AF o Ran 16A o Ddeddf 2006, sy'n gosod dyletswydd ar gyrff penodedig a phersonau sy'n arfer swyddogaethau tai, addysg a gofal iechyd perthnasol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i **roi sylw dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog**. Mae'r adrannau perthnasol a fewnosodwyd gan gymal 8 o'r Bil i Ddeddf 2006, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, wedi'u nodi isod:
  - a) Adran 343AB. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar bersonau a chyrff penodedig yng Nghymru sy'n arfer swyddogaeth berthnasol i roi 'sylw dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog. Dyma'r un egwyddorion ag a nodir yn adran 343A(3), sef:
    - y rhwymedigaethau a'r aberth unigryw a wneir gan y Lluoedd Arfog;
    - yr egwyddor ei bod yn ddymunol dileu anfanteision o Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, neu gyn Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, a

- 
- yr egwyddor y gellir cyfiawnhau darpariaeth arbennig oherwydd yr effaith y gallai Gwasanaeth yn y lluoedd fod wedi'i chael ar unigolion.

Diffinnir swyddogaeth berthnasol yn adran newydd 343AB(2) fel swyddogaeth tai, addysg neu ofal iechyd berthnasol, sy'n feysydd sydd wedi'u datganoli. Diffinnir y swyddogaethau hyn yn is-adrannau (4) i (6) gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol. Y cyrff cyhoeddus yng Nghymru y bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys iddynt yw awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Rhestrir y cyrff hyn yn is-adran (3).

- b) Mae Adran 343AE yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd sylw dyledus a rhaid i'r cyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir. Cyn cyhoeddi canllawiau o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r canllawiau'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig Cymru. Fodd bynnag, mae adran 343AE(5) newydd yn darparu, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y diwygiadau i'r canllawiau yn ansylweddol, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i gyhoeddi canllawiau diwygiedig heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru i ddechrau.
- c) Mae Adran 343AF yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ymestyn y ddyletswydd sylw dyledus i unigolion a chyrrff ychwanegol yng Nghymru, neu i nodi swyddogaethau perthnasol ychwanegol sy'n rhan o'r ddyletswydd. Cyn gwneud rheoliadau o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, i'r graddau bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn 'cymhwysedd datganoledig Cymru'. Diffinnir hyn fel darpariaeth a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n un y gellid ei gwneud mewn is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**10.** Mae'r Memorandwm Atodol yn darparu bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â dau ddiwygiad a wnaed i gymal 8 o'r Bil. Gofynnodd Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru am y ddau welliant hyn er mwyn sicrhau bod y cyrff iechyd a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus yng Nghymru yn adlewyrchu bwriad y polisi.

---

## 4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

**11.** Mae paragraffau 11 i 15 a pharagraff 17 o'r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau sy'n cael eu gwneud mewn Bil yn y DU.

**12.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd y darpariaethau yng Nghymal 8 o'r Bil yn "helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas â Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru."

**13.** At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei chefnogaeth i'r Bil ar y sail:

- *Bydd yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ledled y DU.*
- *Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi o'r rhwymedigaethau a'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog.*
- *Bydd yn meithrin dealltwriaeth o sut y gall yr amgylchiadau sy'n wynebu cymuned y Lluoedd Arfog effeithio ar eu gofynion o ran gwasanaethau cyhoeddus allweddol a'u gallu i gael gafael arnynt.*

**14.** Mae'r Memorandwm Atodol yn ailadrodd y farn hon mewn perthynas â'r darpariaethau wedi'u diweddarau yn y Bil fel y'i diwygiwyd.

## 5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

**15.** Trafodwyd y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yn ein cyfarfodydd ar 4 Hydref 2021.

**16.** Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol fel rhan o'n hystyriaeth o'r Memoranda ym mis Medi. Mae copi o'r ohebiaeth i'w gweld yn Atodiad A.

**17.** Ymatebodd y Dirprwy Weinidog ar 1 Hydref 2021 a rhoddodd atebion manwl i'n cwestiynau. Mae'r ymateb i'w weld yn Atodiad B.

**18.** Mae'r ymateb yn amlinellu rhesymau Llywodraeth Cymru dros gefnogi'r ddyletswydd newydd i "roi sylw dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog" ac yn benodol yn nodi "y bydd y ddyletswydd "sylw dyledus" yn debyg i ddyletswyddau eraill y sector cyhoeddus i roi "sylw dyledus" megis dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010."

---

**19.** Yn yr un modd, mae'r Dirprwy Weinidog yn pwysleisio pwysigrwydd canllawiau statudol wrth sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt pan ddaw'r ddyletswydd i rym.

**20.** Rydym yn cytuno y bydd canllawiau clir, ochr yn ochr â sicrhau bod gweithrediad y Ddeddf yn cael ei fonitro'n effeithiol, yn hanfodol i'w lwyddiant. Mae'n hanfodol felly bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n ystyrlon â'r gwaith o lunio'r canllawiau. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Senedd, a'r Pwyllgor hwn, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gosod canllawiau a gweithredu'r Ddeddf yn fwy cyffredinol.

**21.** O ran cydsyniad deddfwriaethol, rydym yn nodi'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, yn hytrach na thrwy gyfrwng deddfwriaeth y Senedd, ac yn seiliedig ar y rhain, nid oes gennym wrthwynebiad i gytuno â'r Cynnig.

## Atodiad A

### Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

### Equality and Social Justice Committee

Hannah Blythyn AS  
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth  
Gymdeithasol

### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb  
0300 200 6565

### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddEquality@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddEquality  
0300 200 6565

Annwyl Hannah,

20 Medi 2021

Annwyl Hannah,

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil y Lluoedd Arfog

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Lluoedd Arfog yn nodi, er bod Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi bod mewn grym ers bron i ddeng mlynedd: "mae pryder dilys bod rhai aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn dal i wynebu anfantais o ran cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus." Er mwyn llywio ein gwaith ar y Memorandwm, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan Lywodraeth Cymru farn ynghylch a yw'r ddyletswydd sylw dyledus arfaethedig yn mynd yn ddigon pell?
- Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd newydd yn cymryd camau effeithiol ac ystyrlon i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog?
- Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau bod y lluoedd arfog eu hunain yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru?

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad drafft ar y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2021. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd darparu ymateb erbyn y dyddiad hwn os yn bosibl i lywio trafodaethau'r Pwyllgor.



---

Sylwch fod y Pwyllgor Busnes wedi pennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 14 Hydref 2021.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style and is placed on a light yellow rectangular background.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Atodiad B

Hannah Blythyn AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol  
Deputy Minister for Social Partnership



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Jenny Rathbone MS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

1 Hydref 2021

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Medi ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Lluoedd Arfog. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud ar y mater hwn, ac rydym yn ceisio sicrhau cymorth pellach i gymuned y Lluoedd Arfog yn Nghymru.

Trafodaf y tri chwestiwn a ofynnoch yn eu trefn, isod.

### 1. A oes gan Lywodraeth Cymru farn ynghylch a yw'r ddyletswydd sylw dyledus arfaethedig yn mynd yn ddigon pell?

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod ymgysylltu'n gyson â Llywodraeth y DU a chydweithwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon ar y cynlluniau ar gyfer Bil y Lluoedd Arfog ers mis Ionawr 2020. Mae llawer o ymgynghori hefyd wedi bod â sector y Lluoedd Arfog, a thrafodaethau o fewn y sector hwnnw, drwy bwyllgor dethol y DU ar Fil y Lluoedd Arfog.

Nid yw'n glir o'r cwestiwn a yw'r pwyllgor yn gofyn a yw'r ddyletswydd sylw dyledus arfaethedig yn *'mynd yn ddigon pell'* mewn perthynas â'r *swyddogaethau* o fewn y Bil (iechyd, tai ac addysg ar hyn o bryd) neu mewn perthynas â'r *cyrff* o fewn cwmplas y ddyletswydd newydd). Felly, mi amlinellaf ein safbwynt ar y ddwy elfen hon, gan fod y ddwy wedi bod yn destun sawl trafodaeth yn ystod y broses gyfan, fel y gellir gweld o sesiynau tystiolaeth pwyllgor dethol Llywodraeth y DU. Yna, byddaf yn amlinellu ein safbwynt ar natur dyletswydd sylw dyledus y Cyfamod ei hun.

#### Swyddogaethau o fewn y Bil

Rydym yn cydnabod y gallai aelodau cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anawsterau mewn meysydd heblaw am iechyd, addysg a thai. Er enghraifft, mae fy swyddogion wedi codi'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



pwynt na chafodd gofal cymdeithasol ei gynnwys o fewn cwmpas y Bil yn ystod y broses gynllunio. Mae rhai o'r elusennau mawr a'r cyrff cynrychioladol hefyd wedi gofyn i feysydd eraill gael eu cynnwys o fewn y cwmpas yn seiliedig ar eu profiadau.

Llywodraeth y DU sydd wedi pennu'r meysydd polisi o fewn cwmpas y Bil ac mae darpariaeth wedi'i wneud fel bod modd ychwanegu meysydd eraill rywbryd eto. Yn y canllawiau statudol, mewn perthynas â'r 3 maes polisi a gaiff eu cynnwys, mae'n nodi bod y tri llinyn polisi hyn hefyd yn cynnwys sylfeini bywydau llwyddiannus ac yn feysydd o bryder sy'n cael eu codi'n aml gan aelodau cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog sy'n amlinellu'r cynnydd a'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys iechyd, addysg, tai, cyllid, cyflogaeth, cyfiawnder troseddol a choffáu.

### Cyrff o fewn cwmpas y Bil

Bil gan Lywodraeth y DU yw hwn, a'r llywodraeth honno sydd wedi pennu pa gyrrff cyhoeddus i'w cynnwys, mewn ymgynghoriad â'r holl bartneriaid, a ffocws y ddeddfwriaeth yw darparu gwasanaethau lleol, a rhanbarthol, fel sy'n briodol. Rydym wedi gweithio'n agos â Llywodraeth y DU i nodi'r cyrff priodol yng Nghymru.

Fel Llywodraeth, mae gennym eisoes weithdrefnau sefydledig ar waith i sicrhau mesurau craffu ar sut rydym yn cyflawni yn erbyn y Cyfamod gan gynnwys Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog, Adroddiad Blynyddol Cyfamod Llywodraeth Cymru a Datganiad Blynyddol i'r Senedd.

Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor dethol, mae'r cwestiwn am ehangu'r cwmpas hwnnw i Adrannau eraill Llywodraeth y DU neu Lywodraethau datganoledig yn rhywbeth y byddai angen ei ystyried drwy ymgynghoriad pellach. Hyd yma, nid ydym wedi gweld unrhyw arwydd bod Llywodraeth y DU yn dymuno dilyn yr opsiwn hwnnw, ond mae modd i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cyrff ychwanegol (a swyddogaethau).

### Dyletswydd y Cyfamod

Rydym ni fel Llywodraeth yn ymwybodol o'r safbwyntiau gwahanol a fynegwyd yn ystod y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, ar effaith ac effeithiolrwydd dyletswydd arfaethedig newydd y Cyfamod.

Yn ymarferol, bydd y ddyletswydd "sylw dyledus" yn debyg i ddyletswyddau eraill y sector cyhoeddus i roi "sylw dyledus" megis dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi pwysleisio y bydd canllawiau statudol, ynghyd â hyfforddiant ac adnoddau, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyrff o fewn y cwmpas yn deall yn llwyr beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt a sut y gallent wireddu'r ddyletswydd honno. Byddwn ni fel Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid megis CLILC a Byrddau Iechyd Lleol i gefnogi'r holl ddarparwyr i gynnal y ddyletswydd. Byddwn hefyd yn monitro unrhyw oblygiadau ar gyfer ein systemau a'n prosesau ein hunain.

## **2. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd newydd yn cymryd camau effeithiol ac ystyrlon i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog?**

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn cymryd camau effeithiol ac ystyrlon i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Maent wedi rhoi llawer o gefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog, wedi croesawu egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog ac wedi sicrhau newid go iawn ym mywydau pobl. Maent yn parhau i wneud hynny o

fewn y strwythurau llywodraethu a chefnogi rydym wedi'u sefydlu, mewn cyfnodau sy'n aml yn heriol, yn enwedig drwy bandemig COVID-19.

Mewn nifer o achosion, mae cefnogi'r Lluoedd Arfog yn rhan annatod o waith y cyrff hyn, fel y mae nifer o'u gweithgareddau a'u mentrau yn dangos. Mae'r rhain yn cynnwys Hyrwyddwyr pwrpasol ar gyfer y Lluoedd Arfog mewn Awdurdodau Lleol / Byrddau Iechyd Lleol, fforymau Lluoedd Arfog yn dod â rhanddeiliad ynghyd i gynnig cefnogaeth a Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog pwrpasol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r Swyddogion Cyswllt hyn yn unigryw i Gymru ac maent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i godi ymwybyddiaeth o'r Bil a'r ddyletswydd sylw dyledus, a chefnogi partneriaid drwy'r broses hon. Mae'r Swyddogion Cyswllt yn gweithio ar draws eu Hawdurdodau Lleol i helpu i gyflawni'r Cyfamod, ymgysylltu â staff, darparu hyfforddiant, a sicrhau bod polisïau'n ystyried cymuned y Lluoedd Arfog yn lleol. Credwn y bydd gwaith fel hyn yn ategu nodau'r Bil.

Mae codi ymwybyddiaeth o egwyddorion y Cyfamod a chymuned y Lluoedd Arfog yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a phartneriaid elusennol, a chredaf y bydd yn fanteisiol inni pan fydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus i egwyddorion y Cyfamod yn dod i rym.

Bydd y dull cydweithredol sy'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r canllawiau statudol a fydd yn mynd gyda'r ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys pob Awdurdod Lleol Byrddau Iechyd Lleol, a phartneriaid elusennol ar draws Cymru, hefyd yn helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymwybodol o ddyletswydd y Cyfamod, ac yn gallu cymryd camau i sicrhau eu bod yn cynnal egwyddorion y Cyfamod.

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod corff cyhoeddus wedi cymryd camau effeithiol ac ystyrlon i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Mewn unrhyw ddatl am p'un a yw awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â Dyletswydd y Cyfamod ai peidio, caiff aelod o'r cyhoedd gyflwyno ei gwyn/cwynion i'r awdurdod hwnnw, gan ddilyn proses gwyno safonol yr awdurdod. Pan nad yw'n bosibl datrys y mater drwy'r broses gwyno sefydledig, gall cwyn geisio herio unrhyw achos o anghydfurfiaeth honedig â Dyletswydd y Cyfamod, drwy wneud cais i gynnal adolygiad barnwrol o gamau gweithredu'r corff cyhoeddus.

Byddwch wedi nodi nad yw'r Bil yn ei gwneud yn orfodol i ddarparu gwasanaethau penodol ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog, nac yn ei gwneud yn orfodol i sicrhau unrhyw ganlyniadau cyflenwi penodol. Ei nod yw sicrhau bod y bobl berthnasol sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried y materion sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog yn y meysydd allweddol hyn sy'n effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd.

### **3. Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau bod y lluoedd arfog eu hunain yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru?**

Mae ein dyled yn fawr i'n Lluoedd Arfog am y gwaith maent yn ei wneud, a gwn fod y Pwyllgor yn rhannu fy edmygedd o'u hymrwymiad a'u haberth. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig, wrth i'n Lluoedd Arfog helpu'r GIG, cymunedau lleol a phartneriaid eraill.

Rwy'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ac arweinwyr y Fyddin, y Llynges a'r Llu Awyr yng Nghymru sy'n rhan o Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'i gwasanaethau pontio. Ym mis Tachwedd, cynhelir digwyddiad cyflogaeth yng Nghymru ar gyfer y rheini sy'n gadael y gwasanaeth a chyn-filwyr wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn,


Partneriaeth Newid Gyrfa a phartneriaid elusennol i ddangos cefnogaeth o'r Lluoedd Arfog i'r gymuned yng Nghymru.

Mae Brigâd 160 (Cymru) yn cynnal ystod eang o weithgareddau ymgysylltu gan gynnwys gweithio gyda phobl ifanc a chadetiad, cefnogi plant y rheini sy'n gwasanaethu drwy Swyddogion Ymgysylltu Ysgolion Rhanbarthol a chefnogi digwyddiadau cymunedol ar gyfer y Lluoedd Arfog gan gynnwys digwyddiadau Coffa ac Apêl y Pabi.

Mae cymdeithasau catrawd hefyd yn gweithredu ar draws Cymru, yn cefnogi cyn-filwyr ac yn gweithio gydag elusennau eraill y Lluoedd Arfog i ddarparu cymorth cyfannol gan gynnwys cyllid a chefnogaeth gan gymheiriaid.

Mae sector elusennol y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cynnig ystod eang o gefnogaeth ac yn ymgysylltu'n eang â sector y Lluoedd Arfog i gydlynu weithgareddau a hyrwyddo eu gwasanaethau.

Yn gywir



**Hannah Blythyn AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol  
Deputy Minister for Social Partnership